

Datganiad Grant Amddifadedd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

Dyrennir y Grant Amddifadedd Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac y gwyddys eu bod ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ni fel ysgolion i ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC.

Fel ysgol rydym wedi cytuno ar y tri cham a ganlyn:

1. nodi'r grŵp targed o ddisgyblion, ei nodweddion a'i anghenion
2. cynllunio ymyraethau sy'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau
3. monitro a gwerthuso effaith adnoddau

Yn 2015-16 rhoddwyd i Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ddyraniad Grant Amddifadedd disgyblion o £24,150.

Yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin mae gennym gynllun cynhwysfawr, sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin ac ERW, i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu i fyfyrwyr sy'n gymwys ar gyfer y cyllid hwn.

Rydym wedi defnyddio'r cyllid sydd ar gael i:

- wella dysgu ac addysgu drwy ddarparu rhaglenni cefnogi
- cefnogi disgyblion trwy roi gwasanaethau cymorth, cyfarwyddyd a mentora priodol megis y cynllun mentora cyfoedion a'r cynllun cymorth cadarnhaol
- darparu rhaglenni ymyrraeth megis y Literacy Toolbox
- cyflwyno a defnyddio systemau olrhain data i nodi anghenion dysgwyr, targedu ymyraethau a monitro effaith
- ystyried anghenion pob unigolyn sy'n codi'n uniongyrchol o'r proffil disgybl unigol
- mentora disgyblion sy'n tangyflawni
- gwella presenoldeb y grŵp targed drwy ddefnyddio ymyraethau priodol

Mae ein cynllun manwl sy'n cynnwys manylion mewn perthynas â sut rydym yn gwario'r grant ar gael ar wefan yr ysgol o dan y botwm rhieni.